

Anerchiad i gynhadledd CEANGAL Swydd Dhun na Ghal, Iwerddon Tachwedd 2006

Yn gyntaf, raid i mi ddatgan fy mod i wedi pendroni uwchben pa iaith i'w defnyddio wrth gyflwyno'r papur byr hwn. Ai fy mamiaith, yr iaith y byddaf yn byw a gweithio ryw 95% ynddi, ynteu Saesneg - nid fel yr iaith gyffredin, ond fel iaith sy'n cynrychioli'r grymoedd hynny sy'n bygwth bodolaeth diwylliannau lleiafrifol yn fyd-eang. Fel sy'n amlwg, dwi wedi dewis y Gymraeg. Dwi ddim yn sicr ai dyma'r dewis cywir yn y cyd-destun penodol hwn. Rwy'n gobeithio y daw'r rheswm am fy mhenbleth yn glir, nes ymlaen.

Yn ystod y munudau nesaf, byddaf yn rhannu gyda chi syniadau a chwestiynau sydd yn codi o gyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain o weithio'n greadigol - o fewn ffrâm addysg anffurfiol, drama a theatr - mewn cymdogaethau Cymraeg eu hiaith yn hen ranbarthau Dyfed a Cheredigion. Ond dwi'n mynd i ganolbwyntio ar gyd-destun o ymarfer sydd wedi esblygu yn ystod y pedair blynedd diwethaf hyn, blynyddoedd sydd wedi gweld dwysau eithriadol ar ymdeimlad eschatolegol o argyfwng yn y cymdogaethau hyn.

Yr ymarfer cyntaf yw prosiect y Pwerdai - prosiect sy'n arbrofi â thechnegau sy'n ceisio helpu cymdogaethau Cymraeg eu hiaith i newid o fod yn adweithiol i fod yn rhagweithiol, gan ddatblygu'r gallu i gynllunio eu dyfodol eu hunain. Cael y gymdogaeth i adnabod eu cryfderau, yn hytrach na'i diffygion, yw sail y gwaith hwn.

Mae'r ail ymarfer - Gŵyl y Cyfarwydd - yn weithgaredd sydd yn seiliedig ar grefft y storiwr, crefft a oedd yn uchel ei statws yng Nghymru'r tywysogion ac uchelwyr. Yn yr

ardaloedd gwledig, mae'r grefft dal yn fyw iawn, ond yn isel iawn ei statws. Nod yr ymarfer felly yw ail-ddyrchafu'r Cyfarwydd (neu'r Storiwr) o fewn panopli celfyddydol y diwylliant cysefin, a thrwy hynny dyrchafu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol yn gyfredinol.

Y trydydd ymarfer yw Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw. Dwi ddim yn mynd i drio esbonio i chi le mae Troed-y-rhiw. Fydd e ddim yn ymddangos ar unrhyw AA *Routeplanner*. Y cyfan ddywedaf i yw mai festri capel anghydfurfiol yw e, yng nghanol cefn gwlad Ceredigion. A dyna'r pwynt. Oherwydd nod y cwmni yw defnyddio'r Ddrama Gymraeg - sef cyfrwng hanesyddol cryfaf a mwyaf cyffredin y diwylliant Cymraeg yng Ngheredigion - fel modd i ail-egnio'r neuadd bentref, neu'r dafarn, neu'r festri capel fel canolbwynt creadigol. Yng Nghymru, mae cyd-destun arbennig i'r gwaith hwn o wneud y lleol yn ganolog. Mae dyfodiad Canolfan Gelfyddydol y Mileniwm i Fae Caerdydd yn tynnu'r ffocws nid yn unig oddi wrth y canolbwynt lleol, ond hefyd oddi wrth yr ymarfer, y gallu a'r potensial creadigol sydd yn elfen annatod o'r clytwaith hynny'n ry' ni'n ei alw'n gymdeithas, neu 'cymdogaeth'.

Fel y'ch chi'n sylweddoli, mae'n siŵr, mae'r tri ymarfer hyn yn gwahaniaethu o ran cyfryngau. Ond gweddau gwahanol ar ymgais cyffredin y'n nhw: sef, sicrhau ymateb cadarnhaol (a chreadigol, felly) i argyfwng diwylliannol ac economaidd ein cymdogaethau Cymraeg.

A beth yw natur yr argyfwng? Wel - yn nhermau'r penawdau bras: mewnfudiad hyd at 60,000 y flwyddyn o bobl o ardaloedd dinesig Lloegr i 'hafan cefn gwlad'; allfudiad yr un mor sylweddol o bobl ifainc i dde-ddwyrain Lloegr, neu (yn fwyfwy) i dde-ddwyrain Cymru (Caerdydd yn arbennig; ac argyfwng uwch argyfwng ymysg y gymdogaeth amaethyddol - a'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr llaeth yn fwyaf arbennig. Gallwn ddadlau ynglŷn â beth yn union sydd yn bwydo'r problemau hyn. Ond wrth wraidd y cyfan oll y

mae grymoedd - uwch-gyfalafol gan fwyaf - sydd yn gweithredu o safle sy'n bell i ffwrdd. Hynny yw, yn syml nid ffactorau lleol, na phenderfyniadau lleol sy'n rheoli chwiwiau'r farchnad dai, neu'r cwmp ym mhris y litr y mae'r cynhyrchwr llaeth yn ei dderbyn, ond penderfyniadau er budd, ac ar ran, ffactorau sectorol, yn cael eu cymryd gan reolwyr sy'n gweithredu o hirbell.

A dyma fi'n cyrraedd y broblem o ba iaith i ddefnyddio. Oherwydd, er mwyn mynd dan groen yr her sy'n wynebu'r cymdogaethau hyn - a chymdogaethau a berthyn i ddiwylliannau lleiafrifol yn gyffredinol, dybiaf i - dwi'n credu fod angen i ni fanylu ar yr iaith a ddefnyddir yn yr ymdrech o gyfathrebu rhwng y 'ni' mewnol - y bobl o fewn y profiad o gymdeithas - a'r 'nhw' allanol - y sawl sydd y tu fas i'r profiad. Neu, os mynnwch - y gymdogaeth ddwyieithog, amlddiwylliannol ar y naill law, â phobl unieithog, mono-ddiwylliannol ar y llall.

Dwi wedi cael cyfle yn y gorffennol i sylwi ar amhriodoldeb y gair 'cymuned' fel diffiniad o'r profiad cymdeithasol Cymraeg. Dyna pam dwi heddiw wedi arddel y gair 'cymdogaeth' - un o nifer o eiriau cyfoethog yn y Gymraeg, sy'n disgrifio'r ddeinameg o berthyn a chyfrifoldeb sy'n sylfaenol i'n diwylliant. Mae'r Saesneg yn dlotach. Ar wahân i'r 'society' eang ei briodoleddau, y gair a glywn ym mhob cyd-destun bron yw 'community'. Dyna i chi: 'Community Health'; 'Community Policing'; 'Community Education'; 'Care in the Community' heb sôn am 'Community Theatre' a 'Community Arts'.

Beth yw ystyr y gair 'community' yn y cyd-destunau hyn? Wel, dwi o'r farn nad oes neb yn gwybod yn hollol. Mae'r gwir plaen amdani yw mai gair sy'n cael ei ddefnyddio yn llac iawn yw 'community'. Ond er mor llac, y mae rhagfarnau go gryf yn cael eu trosglwyddo yn ei sŵn; rhagfarnau sydd, yn y bôn, yn golygu: eilradd; anhwylyd (yn aml); ac – yn ddieithriad - ymylol.

Dewch nôl at y Gymraeg; i'r profiad mewnol. Tarddiad yr enw 'Cymru' yw'r ddwy elfen 'cym'(= gyda'n gilydd) a 'bro' ('cymdogaeth' 'cynefin' 'fy milltir sgwâr' 'cartref fy mhobl'). Hynny yw, mae'r iaith ei hunan yn dweud wrthym - yn ein hatgoffa yn feunyddiol, bob tro ry' ni'n arddel enw ein gwlad - mai casgliad o fröydd yw Cymru; mai gwead o weadau, le y mae pobl yn perthyn i'w gilydd, ac yn cynnal y cyfrifoldebau o berthyn yw hi. Hynny yw, yn y profiad Cymreig, nid ymylol yw'r gymdogaeth. Mae persbectif y diwylliant Cymraeg yn gosod y 'gymdogaeth' - y 'fro' - 'y filltir sgwâr' - yn y canol.

Felly, dyma fi'n haeru heddiw fod prosiect Pwerdai Ceredigion, Gŵyl y Cyfarwydd a Theatr Gydweithredol Trod-y-rhiw - a phob enghraifft arall o weithredu cymdogaethol sy'n cael ei gynnig yn y gynhadledd hon - dwi'n haeru mai gweithredu 'front-line' y'n nhw; eu bod nhw'n 'front-line' yn y frwydr rhwng y grymoedd cydymffurfiol, globaleiddiol ar y naill law, ac aml-ddiwylliannedd ar lun pob iaith a diwylliant lleiafrifol yn fyd-eang ar y llall.

Ond sylwch mai 'diwylliant lleiafrifol' yw beth wedes i, nid 'diwylliant ymylol'. Oherwydd, y mae'r frwydr yn un a fydd yn cael ei hennill neu ei cholli o fewn ein meddyliau a'n calonnau ni'n hunain yn anad unlle arall. A hynny oherwydd, wrth ymgodymu â'r grymoedd allanol - wrth geisio ennyn eu cefnogaeth ariannol neu eu cefnogaeth syniadaethol – mae gwir beryg i ni fabwysiadu eu hiaith a'u geirfa. Ac, o wneud hynny, i ni ddechrau gweld ein hunain yn eu termau 'ymylol' nhw.

Os gwnawn ni hyn, mae'r frwydr ar ben.